Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar gyfer

# Treuddyn Under 5's Playgroup

Campws Ysgol Parc y Llan
Ffordd y Llan
Treuddyn
Sir y Fflint
CH7 4LN

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Treuddyn Under 5's Playgroup

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Treuddyn Under 5's Playgroup |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Margaret Shaw, Caire Thompson |
| Person â chyfrifoldeb | Margaret Shaw |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2-5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 28 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener (yn ystod y tymor yn unig) 8:00 i 17:30 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17 Rhagfyr 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2017 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 01/07/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Atgyfnerthu polisïau, gweithdrefnau a dogfennaeth i sicrhau eu bod yn cynnwys pob risg bosibl ac yn adlewyrchu'r gweithdrefnau a ddilynir gan yr ymarferwyr

A2 Sicrhau y rhoddir gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru mewn modd amserol am unrhyw newidiadau i'r manylion a nodir yn y rheoliadau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos i'w rhannu ar eu gwefannau, mewn perthynas ag ymgysylltu'n effeithiol â byd natur i ennyn chwilfrydedd mewn cyd-destun dilys er mwyn helpu'r plant i feithrin eu sgiliau llythrennedd.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant: Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn cael cyfleoedd gwerth chweil i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn dewis ble y maent am chwarae, ac â phwy. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus, am eu bod yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ar eu dymuniadau, eu hanghenion a'u hemosiynau.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus, wedi ymlacio ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Maent yn gyfforddus iawn yn eu hamgylchedd ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Mae bron pob un o'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac iach â'u ffrindiau a'r ymarferwyr, y maent yn mynd atynt yn aml i gael cymorth ac yn mwynhau treulio amser yn chwarae ochr yn ochr â nhw. Mae gan bron pob un o'r plant ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r ymarferwyr yn eu cyfarch yn gynnes ac yn eu cefnogi mewn modd sensitif i wahanu oddi wrth eu rhieni, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n hapus i ddechrau eu diwrnod yn y

lleoliad. Maent yn gyfforddus iawn yn eu hamgylchedd ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Er enghraifft, wrth gyrraedd yn y lleoliad, mae bron pob un o'r plant yn hongian eu bagiau a'u heitemau personol yn yr ardal a neilltuwyd yn hyderus. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn defnyddio moesau da, yn parchu ei gilydd ac yn rhannu adnoddau yn dda. Maent yn mwynhau cael canmoliaeth gan yr ymarferwyr am fod yn garedig ac yn barod eu cymwynas.

Mae bron pob un o'r plant yn cael cyfleoedd effeithiol iawn i ddatblygu, dysgu a defnyddio eu dychymyg. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig sy'n dangos diddordeb, sy'n gwerthfawrogi'r cyfle i archwilio eu hamgylchedd ac ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau archwilio eu diddordebau'n rhydd, er enghraifft drwy geisio canfod sut i agor cneuen goco ffres gan ddefnyddio morthwylion ac archwilio'r cynnwys. Mae bron pob un o'r plant yn cefnogi ei gilydd yn dda wrth chwarae. Maent yn helpu ei gilydd i lenwi cynwysyddion â dŵr ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

Mae bron pob un o'r plant yn meithrin ystod eang o sgiliau wrth iddynt chwarae mewn amgylchedd cyfoethog ac effeithiol. Maent yn cael budd o gynllun sydd wedi'i ystyried yn ofalus, sy'n cynnig llawer o gyfleoedd iddynt fod yn annibynnol, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Mae bron pob un o'r plant yn cael amser i ymarfer sgiliau fel golchi eu dwylo eu hunain ochr yn ochr â'r ymarferwyr pan fyddant yn newid eu cewynnau, defnyddio'r toiled yn annibynnol a thacluso ar ôl chwarae. Mae'r plant yn penderfynu pryd i gael bwyd wrth y bwrdd byrbrydau yn ystod y sesiwn. Yma, maent yn arllwys eu diodydd eu hunain ac yn defnyddio'r peiriant grawnfwyd yn hyderus i weini eu hunain. Mae'r profiadau hyn yn helpu i hyrwyddo sgiliau hunangymorth y plant a meithrin eu hunan-barch**.**

### Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm dros hyn yw nad oedd digon o blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg a gyllidir yn rhywle arall yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb i blant unigol gael eu hadnabod.

### Gofal a datblygiad:  Rhagorol

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth wych o'u rolau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o faterion diogelwch ac maent yn hyderus o ran y camau i'w cymryd os bydd ganddynt unrhyw bryderon.  Mae'r ymarferwyr yn dilyn ac yn hyrwyddo arferion hylendid a glanhau trylwyr yn gyson fel rhan o'u prosesau rheoli heintiau. Maent yn gwisgo cyfarpar diogelu personol wrth ymgymryd â thasgau allweddol, er enghraifft wrth newid cewynnau'r plant ac wrth weini bwyd. Mae'r ymarferwyr yn helpu i ymgorffori arferion hylendid effeithiol iawn ymysg y plant, fel golchi dwylo cyn amseroedd bwyd ac ar ôl defnyddio'r toiled.

Mae'r ymarferwyr yn cofnodi ac yn cynnal amrywiaeth o gofnodion, gan gynnwys y cofnodlyfrau damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o fyrbrydau iach a chaiff cinio ei baratoi'n ffres ar y safle neu gall y plant ddod â phecyn cinio. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod amseroedd bwyd yn drefnus, yn bleserus, yn gymdeithasol ac yn ddiogel. Maent yn rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith i ddelio â phlant y gall fod ganddynt alergeddau neu anoddefiadau. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael budd o fynd allan i'r awyr agored yn ddyddiol drwy ddefnyddio'r ardal chwarae awyr agored ac ymweld ag ardal goetir ar y safle.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n dda iawn â'r plant ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn amyneddgar, ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. O ganlyniad, mae'r plant yn mynd atynt yn hyderus iawn. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn dilyn cyfarwyddiadau'r plant wrth gasglu adnoddau penodol i hwyluso eu chwarae. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a'i effaith ar ymddygiad plant. O ganlyniad, maent yn teilwra eu dull gweithredu'n fedrus i sicrhau bod y plant yn cael eu harwain i ddangos yr ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. Er enghraifft, roedd rhai o'r plant yn defnyddio chwistrell i gasglu dŵr yn gyffrous, ac awgrymodd yr ymarferydd y gallent saethu'r drws dros y ffens er mwyn osgoi gwrthdaro posibl â'r plant eraill.

Mae'r ymarferwyr yn deall anghenion unigol y plant yn dda, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Maent yn ceisio cyngor defnyddiol ac yn gweithredu ar arweiniad gan weithwyr proffesiynol pan fo angen. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi'n rheolaidd ar y plant wrth iddynt chwarae ac mae hyn yn eu helpu i olrhain eu datblygiad a nodi camau nesaf. Maent yn dilyn diddordebau'r plant yn dda ac yn ymateb i'w hoff bethau a'u diddordebau, gan ychwanegu adnoddau a gweithgareddau diddorol at yr amgylchedd. Maent yn ymgysylltu'n sensitif â'r plant ac yn eu hannog i feddwl yn wahanol am sut y gallant ddatrys problemau wrth chwarae, er enghraifft drwy ystyried sut y gallant stopio car tegan rhag disgyn oddi ar ramp.

## Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Rhagorol

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran gallu'r plant a'r hyn y gallant ei wneud yn annibynnol. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o'r ffordd mae plant yn dysgu ac maent yn adnabod y plant yn y lleoliad yn dda. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i gynllunio amrywiaeth eang o brofiadau dysgu cyffrous. Mae'r rhain yn dilyn diddordebau'r

plant yn effeithiol ac yn adeiladu ar yr hyn y gallant eisoes ei wneud. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn ymddiddori'n fawr yn eu chwarae, ac yn gwneud cynnydd o ran eu dysgu o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi'n bwrpasol ar y plant wrth iddynt chwarae ac yn cofnodi asesiadau cychwynnol i nodi'r hyn y gall y plant ei wneud a'u camau dysgu nesaf. Maent yn defnyddio'r arsylwadau hyn yn effeithiol i lywio gwaith asesu parhaus a chefnogi cynnydd. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm i bennu targedau penodol clir ac maent yn ystyried y ffordd orau o gefnogi'r plant i ddatblygu a mireinio eu sgiliau. Er enghraifft, ar ôl nodi bod angen datblygu sgiliau echddygol manwl y plant ymhellach, gwnaethant gynllunio amrywiaeth bwrpasol o gyfleoedd i hybu'r sgiliau hyn. Roedd y rhain yn cynnwys ychwanegu pipedau at yr hambwrdd dŵr, annog y plant i drin toes chwarae, ac ychwanegu adnoddau bach at y gegin fwd.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol y plant yn effeithiol iawn. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i rannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd, ochr yn ochr â darllen deunyddiau yn y lleoliad fel llyfrau gwybodaeth a chardiau ffeithiau. Mae'r adnoddau hyn yn datblygu sgiliau darllen cynnar y plant yn dda. Er enghraifft, wrth arsylwi ar gocynau wrth yr orsaf gloÿnnod byw, dywedodd rhai o'r plant mai lindys oeddent i ddechrau, a daethant o hyd i'r cardiau ffeithiau perthnasol i ddangos hynny.

Mae'r ymarferwyr yn dangos amrywiaeth helaeth o iaith fathemategol yn ystod gweithgareddau chwarae ac yn dangos sut i ddefnyddio adnoddau digidol i wella dysgu'r plant yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn hyderus wrth ddisgrifio faint o fefus sydd yn eu powlen ac yn defnyddio'r camera cyflym i dynnu lluniau balch o'u creadigaethau clai.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n sensitif â'r plant yn y lleoliad ac maent yn fodelau rôl iaith medrus. Maent yn cefnogi'r plant i ehangu eu geirfa drwy ddefnyddio cwestiynau ystyrlon. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa wrth siarad am eu chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau cyffrous a diddorol i'r plant ymgysylltu â byd natur a datblygu eu chwilfrydedd a'u hymdeimlad o ryfeddod am y byd naturiol. Maent yn annog y plant i archwilio ardal goetir gyfagos er mwyn ymchwilio i'r hyn sy'n byw yno a gwrando am synau fel adar canu. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar yr ardal awyr agored hon i helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd y plant yn fedrus. Er enghraifft, maent yn darparu crogwelyau ac ardaloedd cyfforddus i'r plant ymlacio gyda llyfr stori, yn annog y plant i chwilio am fwystfilod bach o dan foncyffion a'u cyfateb i luniau, ac yn siarad â'r plant am yr hyn y gallant ei weld a'i glywed. O ganlyniad, mae'r plant yn pwyntio'n

hyderus at adar ac yn disgrifio'r dail y maent wedi dod o hyd iddynt drwy ddweud eu bod yn 'grensiog'. Mae hyn yn un o gryfderau'r lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo diwylliant Cymru mewn ffordd addas drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a darparu lluniau o gestyll yn yr ardal blociau. Maent yn meithrin ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned drwy ymweliadau gwerth chweil â'r siop fferm leol lle maent yn prynu poteli o laeth i'w defnyddio yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i'r plant ddatblygu'n ysbrydol, yn foesol ac yn ddiwylliannol drwy ddarparu amrywiaeth effeithiol iawn o adnoddau o sawl diwylliant a dathlu gwyliau. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cyflwyno straeon ac offerynnau cerdd amrywiol fel gitâr, drymiau a maracas yn ogystal â darparu adnoddau dilys fel gweill bwyta a gwisgoedd Tsieineaidd traddodiadol yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ymgorffori'r Gymraeg a diwylliant Cymru ymysg y plant mewn ffordd bwrpasol. Maent yn cyflwyno caneuon a Chymraeg achlysurol sylfaenol yn gyson yn ystod gweithgareddau ac wrth ymgymryd â'r drefn ddyddiol.

### Yr Amgylchedd: Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar iawn sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r arweinwyr yn cydgysylltu â'r ysgol i sicrhau bod y gwiriadau cynnal a chadw gofynnol yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. Ceir system ddiogel ar gyfer mynd i mewn i'r lleoliad a gadael, a chedwir cofnod o ymwelwyr. Mae'r ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân a chloi rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn hyderus o ran y gweithdrefnau.

Mae'r arweinwyr yn trefnu'r ardaloedd chwarae yn arbennig gan ystyried anghenion y plant. Maent yn darparu amgylchedd cyfeillgar iawn, gyda'r waliau wedi'u haddurno mewn lliwiau niwtral a llawer o ddeunyddiau naturiol, ynghyd â goleuadau isel sy'n creu awyrgylch ymlaciol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae wedi'u gosod mewn ffordd effeithiol iawn i ennyn chwilfrydedd y plant, eu hannog i archwilio a'u helpu i ddatblygu. Mae'r adnoddau a'r dodrefn lefel isel o ansawdd uchel yn cefnogi'r plant i fod yn annibynnol, gan eu galluogi i ddilyn eu diddordebau ac i gyfeirio eu chwarae eu hunain yn hawdd. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio'r ystafell ymolchi a'r ardal chwarae awyr agored, sydd i ffwrdd oddi wrth y brif ystafell chwarae, yn llwyddiannus ac yn eu goruchwylio wrth wneud hynny,

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth helaeth o deganau ac adnoddau dilys penagored sydd o ansawdd ardderchog. Defnyddir eitemau bywyd go iawn, naturiol ac wedi'u hailgylchu i ategu pob rhan o'r amgylchedd, sy'n ysgogi synhwyrau a dychymyg y plant ac yn gwella eu profiadau chwarae. Mae rhannau rhydd bach a mawr, fel ffyn, cwpanau wy pren, cratiau ac esgyll pren ar gael y mhob rhan o'r lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r eitemau hyn yn rhydd i ategu eu chwarae, gan hyrwyddo creadigrwydd a chwilfrydedd.

Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a phrofiadau dysgu cyfoethog er mwyn i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol, eu dychmygu, a'u sgiliau cyfathrebu. Mae'r amgylchedd awyr agored yn efelychu'r cyfleoedd chwarae a dysgu dan do helaeth, sy'n galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau yn yr amgylchedd lle maent yn teimlo fwyaf cyfforddus. Mae'r amgylchedd awyr agored o faint addas ac yn cynnwys strwythur bach â gorchudd sy'n golygu bod modd defnyddio'r ardal ym mhob tywydd. Mae'r lleoliad hefyd yn defnyddio ardal goetir ar y safle, y mae'r plant yn ymweld â hi yn rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, a cheir ffocws ar osod y plant wrth wraidd popeth a wneir. Caiff hyn ei gyfleu'n effeithiol i'r rhieni. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a ddarperir a'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud yn y lleoliad. Maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad a chynnydd eu plentyn. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn darparu arweinyddiaeth ddigynnwrf a chadarnhaol lle mae'r oedolion a'r plant y cael eu parchu. Ceir diwylliant cryf o gydweithio lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r arweinwyr wedi gweithio'n galed i greu ethos o berthyn a gwaith tîm. Mae hyn yn helpu i ddatblygu amgylchedd rhagorol lle mae'r plant yn ffynnu.

Mae gweithdrefnau trylwyr ar waith ar gyfer recriwtio staff, gan sicrhau bod y staff yn brofiadol ac yn gymwys. Mae gan bob aelod o'r staff dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, nid yw'r unigolion cyfrifol yn sicrhau y rhoddir gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru mewn modd amserol am unrhyw newidiadau i'r manylion a nodir yn y rheoliadau.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu datganiad clir o ddiben, sy'n adlewyrchu'r lleoliad yn gywir. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r broses o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd, ond mae angen diweddaru rhai ohonynt i'w cysoni'n llawn â'r ymarfer presennol. Mae asesiadau risg addas ar waith, ond nid yw'r rhain bob amser yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol nac yn nodi'r holl risgiau posibl yn ddigon da.

Mae'r ymarferwyr yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd a phwrpasol gyda'r ymarferwyr. O ganlyniad, caiff targedau ystyrlon eu pennu ar gyfer anghenion hyfforddiant a nodwyd yr ymarferwyr. Caiff cynnydd yn erbyn y targedau hyn ei adolygu'n systemataidd. Mae'r arweinwyr yn cydweithio â'r staff i nodi cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr. Maent yn monitro effaith hyfforddiant er mwyn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, gan arwain at welliannau i'r ddarpariaeth sy'n cefnogi cynnydd y plant o ran eu dysgu.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau'r ymarferwyr a thrafodaeth â phartneriaid allanol, i lywio eu prosesau hunanwerthuso a gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi unrhyw feysydd i'w gwella a llunio cynlluniau gweithredu penodol. Mae'r cynlluniau hyn yn gwneud defnydd effeithiol o'r arian grant sydd ar gael ac yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth i gefnogi cynnydd y plant.

Mae trefniadau effeithiol ar waith yn y lleoliad ar gyfer y plant, gan gynnwys ymweliadau rheolaidd gan athro meithrin yr ysgol leol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu i gefnogi camau nesaf y plant yn eu haddysg. Mae'r bartneriaeth gref rhwng yr ysgol a'r lleoliad yn helpu i sicrhau bod holl anghenion y plant yn cael eu diwallu, ac mae hyn yn un o gryfderau'r lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2025